

Canllaw Ffynhonnell Rhif 2

Y CYFRIFIAD

BETH YW'R CYFRIFIAD?

Cofnodion o bwy oedd yn byw ym mhob cartref ym Mhrydain yw'r cyfrifiad. Maent wedi cael eu cynnal bob 10 mlynedd ers 1801, ac eithrio 1941, yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae cyfrifiadau o 1841 ymlaen yn ddefnyddiol i haneswyr teulu ond dim ond data ystadegol cyfyngedig a geir yn y cofnodion cynharaf (D.S. mae rhai eithriadau lle mae gwybodaeth y cyfrifiad ar goll). Caiff pob cyfrifiad ei gau am 100 mlynedd, ac ar hyn o bryd dim ond dychweliadau 1841 - 1901 sydd ar gael i edrych arnynt (bydd mynegai cyfrifiad 1911 yn cael ei ryddhau yn 2011).

Mae cyfrifiad 1841 yn cynnwys llai o fanylion na chyfrifiadau diweddarach gan mai dim ond enw llawn, oedran, rhyw a swydd bob unigolyn ym mhob eiddo ar ddiwrnod y cyfrifiad a gofnodir. Roedd oedrannau yn cael eu talfyrru i'r pum mlynedd agosaf yng nghyfrifiad 1841 felly nid ydynt yn hollol glir.

O 1851 ymlaen, nodir enw llawn, oedran a statws priodasol bob unigolyn ym mhob cartref. Fe welwch hefyd bod eu perthynas â'r pen teulu, eu rhyw a'u swydd yn cael eu nodi yn ogystal â'r plwyf a'r sir lle cafodd pob unigolyn yn y cartref ei eni.

At ddibenion y cyfrifiad, rhannwyd y wlad yn ardaloedd cofrestru ac is-gofrestru ac o ganlyniad i'r broses cynhyrchwyd llyfrau rhifiant a oedd yn cwmpasu ardaloedd o sawl cant o dai.

BETH ALLAF EI DDARGANFOD O'R CYFRIFIAD?

Gall y cyfrifiad roi gwybodaeth am ystod eang iawn o bynciau, er enghraifft:

- **Hanes teulu** – y berthynas rhwng aelodau'r cartref; oedrannau a manau geni; gellir defnyddio hyn ar y cyd â chofrestrau plwyfi i ddarganfod bedyddiadau, priodasau a chladdedaethau.
- **Hanes tai** – gall y cyfrifiad ddweud wrthy ch pwy oedd yn byw mewn eiddo penodol rhwng 1841-1901. Fodd bynnag, nid yw enwau tai na chyfeiriadau unigol yn cael eu nodi bob amser felly gall fod yn anodd dod o hyd i eiddo penodol ambell waith.
- **Hanes economaidd** – mae'r cyfrifiad yn gallu dangos i ni pa fathau o swyddi oedd gan bobl yn y gorffennol a'r modd y bu iddynt newid dros amser.
- **Hanes y dirwedd** - gellir defnyddio'r cyfrifiad gyda mapiau i weld sut y cynyddodd adeiladau a'r boblogaeth.
- **Demograffeg** – newidiadau mewn meintiau teuluoedd; sut oedd hen bobl pan oeddent yn marw; teuluoedd yn ymfudo i ardaloedd eraill (er enghraifft, ym Mwcle, Sir y Fflint, mae'r cyfrifiad yn dangos bod nifer fawr o bobl a anwyd yn Swydd Stafford wedi symud o Stoke-on-Trent i Fwcle i chwilio am waith yn y diwydiant Crochenwaith).

SUT ALLAF DDEFNYDDIO'R CYFRIFIAD YN SWYDDFA GOFNODION SIR Y FFLINT? Mae gennym **fynegeion** ar gyfer enwau strydoedd ac enwau lleoedd ar silffoedd yr ystafell chwilio. Os nad ydych yn gwybod yn union lle'r oedd eich cyndadau yn byw, fe'ch argymhellir i edrych ar y wefan **www.ancestrylibrary.com** sydd â **mynegai ar-lein** ar gyfer cyfrifiadau 1841 - 1901. Rydym wedi tanysgrifio i Ancestry felly nid oes raid i chi dalu i edrych ar y cofnodion. **Holwch ynghylch neilltuo cyfrifiadur.**

Cedwir cofnodion cyfrifiadau Sir y Fflint a Sir Ddinbych ar **ficroffilm** yn Swyddfa Gofnodion Sir y Fflint. Rhaid i chi **neilltuo darlennydd microffilm o flaen llaw** gan fod nifer y lleoedd yn gyfyngedig. Mae **mynegeion** y cyfrifiad ar silffoedd agored yn yr ystafell chwilio. Defnyddiwch y mynegai i ddarganfod pa ficroffilm sydd ei hangen arnoch. Cedwir y microffilmiau mewn cypyrddau ac maent yn **hunanwasanaeth**. Rhowch eich **marciwr melyn** yn y bwllch lle'r ydych wedi tynnu'r ficroffilm fel bo modd i chi wybod lle i'w rhoi yn ôl ac i roi gwybod i chwilwyr eraill eich bod yn ei defnyddio.

ARCHEBU COPÏAU: Wrth ysgrifennu cyfeirnodau'r Cyfrifiad, defnyddiwch y fformat canlynol:

Rhif y ficroffilm; Cyfeirnod y Swyddfa Gartref neu'r Archifau Cenedlaethol, e.e. HO107/3614 neu RG13/2634 (ar ochr dde'r dudalen fel arfer ac ar waelod y dudalen yn y canol ambell waith); **rhif ffolio**, e.e. ffolio 54 (a welir ar ochr dde pob tudalen bob yn ail); **rhif y dudalen**, e.e. tudalen 4 (a welir ar ben y dudalen yn y canol). Felly dylai cyfeirnod llawn edrych fel hyn: Microffilm 55, RG13/2634, ffolio 54, tudalen 4. Hefyd, nodwch gyfeiriad a chyfenwau pobl yn y cartref yr ydych yn chwilio amdano.

GAIR I GALL WRTH DDEFNYDDIO'R CYFRIFIAD: Defnyddiwch ddata hysbys gan weithio'n ôl o'r darn diweddaraf o wybodaeth sydd gennych os yn bosibl. Defnyddiwch fynegeion enwau gwefan Ancestry i gulhau'r posibiladau os ydych yn ansicr ynghylch manau preswyl. Defnyddiwch y cyfrifiad ochr yn ochr â ffynonellau eraill, megis **cofrestrau plwyfi** (gweler Canllaw Ffynhonnell Rhif 1) i gadarnhau eich bod wedi dod o hyd i'r unigolyn cywir. Dylech drin pob oedran a gofnodir yn y cyfrifiad gyda gofal - nid pawb fyddai wedi gwybod eu dyddiad geni cywir. Ni fydd pob aelod o'r teulu wedi'u rhestru - dim ond y rheiny a oedd yn byw yn y tŷ ar noson y cyfrifiad. Ar ôl 1851, gall manylion manau geni eich helpu i ddarganfod cofnodion eraill mewn cyfrifiad neu gofrestrau plwyfi. Gall gwybodaeth y cyfrifiad eich helpu hefyd i gulhau chwiliad am dystysgrif geni. Byddwch yn ofalus gyda thystiolaeth anghyson o wahanol gyfrifiadau - mae'n bosibl y bydd angen i chi wirio mwy nag un man geni a restrwyd. Newidiodd swyddi pobl mewn gwahanol flynyddoedd cyfrifiadau hefyd.

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar y llyfr canlynol sydd ar gael ar silffoedd agored yn yr ystafell chwilio: Higgs, E. Making Sense of the Census Revisited: Census Records for England and Wales, 1801-1901, A Handbook for Historical Researchers. London. 2005.

Gallwch edrych ar wefan hanes teulu'r BBC hefyd: www.bbc.co.uk/history/trail/familyhistory